

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	9 TACHWEDD 2021
Aelod Craffu:	Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Swyddog cyswllt:	Vera Jones – Rheolwr Democratiaeth ac Iaith
Rhif Cyswllt:	32267
Pwnc:	Cyfeiriad yn ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - Penderfyniad y Cabinet ar 28/09/21, Eitem 8: Ysgol Abersoch.

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cabinet yn ail-ystyried ei benderfyniad ar sail pryder gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef:-

"2.Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref .

(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.

(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.

Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.

Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn."

RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Yn unol ag Adran 7.25 ch o gyfansoddiad y Cyngor:

“Os yw'r Pwyllgor Craffu yn dal i bryderu am y penderfyniad ar ôl ei ystyried, yna caiff ei gyfeirio'n ôl at y sawl a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried, gan amlinellu'n ysgrifenedig natur ei bryderon neu gyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn. Os caiff ei gyfeirio at y penderfynwr, bydd ef/hi yn ei ailystyried o fewn 15 diwrnod gwaith clir arall, gan wneud gwelliannau iddo ai peidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.”

CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

CEFNDIR

1. Galwyd penderfyniad y Cabinet, Eitem 8: Ysgol Abersoch, cyfarfod 28/09/21, i mewn i'w graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Y penderfyniad hwnnw oedd: –

“Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.”

2. Gwnaethpwyd hynny yn unol ag Adran 7.25 o gyfansoddiad y Cyngor gan y Cynghorwyr Beth Lawton (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu), Alwyn Gruffydd ac Elwyn Jones o fewn y gofynion a'r amserlen angenrheidiol.
3. Nodwyd y rhesymau am alw mewn, hynny yw'r agweddau o'r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu, fel a ganlyn:

“1. Mae'r Adroddiad yn anghywir ac yn gamarweiniol rhan effaith ar y Cymuned, er enghraifft iaith a diwylliant Cymraeg - yn y tabl ar dudalen 714 mae yn dweud nad oes dim effaith ar yr iaith.

2. Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref

(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.

(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych

i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.

Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.

Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn.

3.Mae pryder wedi ei ddatgan rhan y ffordd droed rhwng Abersoch a Sarn Bach mae yr Adran addysg yn dweud fod cyswllt wedi bod gyda'r Adran Ffyrdd ond nid oes dim byd pendant wedi ei gyflwyno rhan datrys y risg yma sydd yn rhoi disgyblion mewn peryg. Mae'r Adran Addysg yn sôn am drefniadau cludiant sydd wrth gwrs yn ychwanegu at hinsawdd ac yn enghraifft ddrwg i'r plant ar sut mae'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth effaith ar hinsawdd.

4. Mae un plentyn yn disgyn allan o'r cynnig i gael cludiant oherwydd polisiâu oed - yn y dyfodol pan fydd rhifau plant yn cynyddu oherwydd (a) a (b) mae'n debyg bydd plant eraill yn cael gwrthod y cludiant yma ac felly yn dioddef rhan eu haddysg.

5.Y penderfyniad ydi i gau yr ysgol yn ganol y flwyddyn ysgol a does dim amheuaeth fod hyn am fod yn dryslyd i'r plant ac eto mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu haddysg does dim eglurhad pam a beth ydi y rhesymeg yn fan hyn. ".

4. Cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr 21ain o Hydref, 2021. Penderfynodd aelodau'r Pwyllgor craffu fel a ganlyn:

Bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r aill reswm dros alw i mewn, fel a nodir ac a dywyllwyd yn pwynt 3 (2) uchod.

Cyfeiriwyd y mater yn ôl at y Cabinet gan y mynegwyd pryder nad oedd ystyriaeth lawn wedi ei roi i effaith posib datblygiadau arfaethedig ar y ffigurau tafluniad ar gyfer Ysgol Abersoch cyn dod i benderfyniad.

UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn olrhain y broses a ddilynwyd yn dilyn cais i alw penderfyniad gwreiddiol y Cabinet i mewn o dan rhan 7.25 o'r Cyfansoddiad. Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Addysg AC Economi y dylid cyfeirio y mater yn ôl i'r Cabinet er ail ystyried y penderfyniad a gymerwyd ar y 28ed o Fedi 2021. Yn unol a'r darpariaethau y Cyfansoddiad mae'r penderfyniad yma wedi ei atal rhag cael ei weithredu hyd y bydd y drefn galw mewn wedi ei chwblhau. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi nodi y materion roeddynt am i'r Cabinet roi sylw iddynt.

Mae'n ofynnol i'r Cabinet roi ystyriaeth gofalus i farn y Pwyllgor Craffu am y penderfyniad ac oes angen gwneud gwelliannau a'i pheidio Fodd bynnag mae'r penderfyniad ar yr ymateb i argymhellion y Pwyllgor Craffu yn parhau yn benderfyniad gan y Cabinet a ddylid cadarnhau y rhybudd statudol ynglŷn ag Ysgol Abersoch yn unol a darpariaethau Adran 53 Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Felly, wrth adolygu ei benderfyniad gwreiddiol mae'n parhau yn fater sydd angen ei gloriannu o fewn y fframwaith o ystyriaethau a gofynion sydd yn berthnasol iddo. Yn yr un modd mae angen gosod argymhellion y Pwyllgor Craffu o fewn y cyd-destun yma. Penderfyniad y Cabinet yn unig ydi hyn. Bydd y penderfyniad yma yn derfynol.

Y Pennaeth Cyllid:

“Nid yw'r rheswm am ofyn i'r Cabinet ail-ystyried ei benderfyniad ar 28/09/2021 yn newid y sefyllfa gyllidol gyfredol. Mae'r rhesymau i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021 yn parhau, gan gynnwys creu arbediad blynyddol o £96,062 mewn costau refeniw, a pwysleisir eto fod y gost fesul disgybl yn £17,404 yn Ysgol Abersoch o'i gymharu â chyfartaledd sirol o £4,198. Hyd yn oed petai'r datblygiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad uchod yn cael eu gwireddu a hynny yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol, nid oes tystiolaeth cymhellgar i ddangos y byddai cyfryw gynnydd yn ddigonol i achosi newid arwyddocaol yn y sefyllfa sylfaenol yma.

Rwyf yn parhau i gefnogi penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod 28/09/2021.”

Atodiadau

- ATODIAD 1 Hysbysiad Penderfyniad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (21/10/21)
- ATODIAD 2 Papurau Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (21/10/21) sy'n cynnwys
- ATODIAD 2a Blaen adroddiad
- ATODIAD 2b Ymateb yr adran addysg i'r agweddau o'r penderfyniad a oedd i'w craffu
- ATODIAD 2c Taflen penderfyniad y Cabinet ar 28/09/21, Eitem 8
- ATODIAD 2ch Adroddiad y Cabinet ar 28/09/2021, Eitem 8